# CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd gyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 15fed o Ionawr 2019 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng H James, D Lewis, P Walton, J Phillips, W Evans, G Evans, R Gallie, J Lewis (CSC) a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Dim

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 20fed o Dachwedd a derbyniwyd hwy yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:**

Agenda eitem 7 – P Walton and W Evans –cais am gymorth ariannol oddi wrth Ysgol Bro Brynach.

**MATERION YN CODI:**

Derbyniwyd dau gywiriad i'r map pori tir.

Penderfynodd y Cyngor i beidio adnewyddu cytundeb y SDD gan fod hyn ddim yn ofynnol yn gyfreithiol bellach.

Derbyniwyd rhagor o wybodaeth am ddyfodol y cae chwarae a phenderfynodd y cynghorwyr i brynu'r cae pe bae cyfle i wneud hynny.

Derbyniwyd gwybodaeth am y posibilrwydd o gael grant oddi wrth y Loteri Cenedlaethol i brynu diffibriliwr.

**PRAESEPT 2019/20:**

Yn dilyn trafodaeth hir am y cyllid amcangyfrifol gwnaeth y cyngor gymeradwyo codi'r praesept i £8000.00 am 2019/20.

**ARCHWILIAD MEWNOL:**

Gwnaeth y Cyngor gymeradwyo estyn gwahoddiad i archwilydd mewnol llynedd i wneud y gwaith am 2018/19.

**GOHEBIAETH:**

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Cyngor taw y swm gwariant dan Adran 137 yw £8.12 yr etholwr.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Corff Llywodraethu Ysgol Bro Brynach yn gwneud cais am gymorth ariannol. (Gwnaeth Cyng P Walton a W Evans ddatgan diddordeb a chymeront

ddim rhan yn y drafodaeth). Cytunodd y Cyngor i roddi £1000.00 y flwyddyn am 2019/20 a 2020/21.

Hysbyswyd y Cyngor gan CSC ei bod yn golygu cael gwared o’r gist ail-gylchu yn Llanwinio yn yr wythnos yn dechrau 04/02/19. Dywedodd Cyng J Lewis ei bod wedi gwrthwynebu hyn yn barod. Dywedodd y Cyngor wrth y clerc i gysylltu a CSC i ddatgan eu gwrthwynebiad hefyd.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| CSC – 3ydd rhandal o’r praesept | £2000.00 |
| GVO Wind No 24 – lles cymunedol | £2500.00 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| BHIB Insurance – yswirio adeiladau cae chwarae | £16.79 |
| Dŵr Cymru – cae chwarae Blaenwaun 30/06/18 – 08/01/19 | £16.44 |
| D.H.&D.M. James – deunydd/llafur i adnewyddu mainc | £60.00 |

**CYNLLUNIO:** Dim

**U.F.A.**

Materion cynnal a chadw ar y priffyrdd:

Cwmbach – rhwystr ceuffost a treillio’r afon heb ei wneud eto.

Cwmfelin Mynach – tyllau yn yr heol o Gapel Ramoth tua cyffordd Fferm Bwmper,

ffens wedi cwympo a baw ar yr heol ar y troeon islaw Esgerddeugoed.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganiodd y cyfarfod yn gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 19eg o Fawrth 2019 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**